Un o gomisiynau Llywodraeth Cymru

# Addysg Grefyddol:

## cefnogi camau cynnar y broses o ddatblygu Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau

**lluniwyd gan weithgor CCYSAGauC a PYCAG**

**Medi 2017**

**Dogfen drafod i Grŵp y Dyniaethau**

**Aelodau'r Gweithgor**

Mae'r aelodau canlynol o Gymdeithas CYSAGau Cymru (CCYSAGauC) a'r Panel Ymgynghori Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (PYCAG) wedi gwneud cyfraniadau:

Dr Tania ap Sion
Prifysgol Warwig

Yr Athro Leslie J Francis
Prifysgol Warwig

Bethan James
GwE

Libby Jones
Canolfan St Giles ar gyfer Addysg Grefyddol a Chyngor Sir Wrecsam

Phil Lord
GwE

Mary Parry
Sir Gaerfyrddin ac ERW

Gill Vaisey
Ymgynghorydd Addysg Grefyddol

Paula Webber
Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ac Ysgrifennydd CCYSAGauC

**CYNNWYS**


1 Nodau ac amcanion

2 Beth sy'n bwysig ym maes Addysg Grefyddol

3 Gwybodaeth, Sgiliau a Chymwyseddau Craidd ym maes Addysg Grefyddol

4 Beth sy'n bwysig ym maes Addysg Grefyddol – Datblygiad Ysbrydol

5 Addysg Grefyddol a'r Pedwar Diben

6 Amlinelliad enghreifftiol o ddilyniant ym maes Addysg Grefyddol

7 Syniad o'r hyn y bydd disgyblion yn ei ddysgu/yn cael profiad ohono ym maes Addysg Grefyddol

8 Ystyried cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, sgiliau ehangach, y dimensiwn Cymreig a safbwyntiau rhyngwladol ym maes Addysg Grefyddol

Cyfeiriadau

Atodiad 1 Awgrymiadau ar gyfer profiadau dysgu ym maes Addysg Grefyddol yn 5, 8, 11, 14 ac 16 oed

## 1 Nodau ac amcanion

Diben nodau ac amcanion y papur hwn, ar gais Llywodraeth Cymru, yw darparu papur cryno ar gyfer Addysg Grefyddol sy'n amlinellu'r canlynol:

- y wybodaeth/cysyniadau a'r sgiliau a'r cymwyseddau cysylltiedig craidd yr ystyrir eu bod yn hanfodol bod pob dysgwr yn eu dysgu yn y ddisgyblaeth;
- dilyniant ar gyfer yr uchod, a syniad o'r hyn y dylai disgyblion ei ddysgu/cael profiad ohono gan gysylltu'n fras â disgwyliadau yn 5, 8, 11, 14 ac 16 oed;
- y prif gysyniadau 'beth sy'n bwysig'/'syniadau mawr' awgrymedig ar gyfer Addysg Grefyddol a gyflwynir ar ffurf cwestiynau (gan adeiladu ar yr uchod);
- sut y gellir ymgorffori'r cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, sgiliau ehangach a'r dimensiwn Cymreig/safbwyntiau rhyngwladol mewn perthynas ag Addysg Grefyddol.

Drwy gydol y papur, ystyriwyd cysylltiadau â'r 'pedwar diben'.

Diben y papur hwn yw ysgogi trafodaeth o fewn grŵp arloesi'r Dyniaethau yn hytrach na chyflwyno cynigion diffiniol i'w hystyried ganddo.

## 2 Beth sy'n bwysig ym maes Addysg Grefyddol?

Mae'r tri maes a amlinellir isod yn rhoi trosolwg o'r hyn sy'n bwysig ym maes Addysg Grefyddol. Yn naturiol, mae'r tri maes yn gysylltiedig â'i gilydd ac, wrth addysgu a dysgu, bydd hyn yn amlwg ar bob adeg.

Ym maes Addysg Grefyddol, mae'n bwysig sicrhau bod gwirionedd mynegi credoau mewn cymdeithas gyfoes yn cael ei gydnabod, a bydd hyn yn cynnwys effaith gadarnhaol a negyddol crefydd ar y byd heddiw. Mae hefyd yn bwysig bod Addysg Grefyddol yn ystyried ac yn ymchwilio i'r graddau y mae credoau ac arferion crefyddol yn amrywio, fel y dangosir gan unigolion, teuluoedd a chymunedau. Rhaid i newidiadau dros amser i'r ffordd y caiff dysgeidiaethau eu dehongli gael eu hystyried hefyd, yn ogystal â'r dehongliadau a'r dulliau gwahanol sy'n amlwg mewn gwahanol wledydd a diwylliannau.

***Ymwybyddiaeth o brofiadau bywyd a'r cwestiynau sy'n codi***

Mae'n bwysig bod plant a phobl ifanc yn gwneud synnwyr o'u profiad o'r byd naturiol a chydberthnasau dynol, yn cydnabod bod ochr ysbrydol i fywyd i rai pobl, ac yn sensitif i'r materion a'r cwestiynau sy'n codi o'r profiadau hyn. Yn ystod y broses, dylent ddod yn ymwybodol o'r cwestiynau anodd a sylfaenol (athronyddol a moesegol) sy'n wynebu pob bod dynol, er enghraifft am yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir, dioddefaint a marwolaeth ac ystyr a diben bywyd. Dylent ystyried ymatebion crefyddol ac anghrefyddol amrywiol i'r fath cwestiynau a materion.

***Credoau, dysgeidiaethau ac arferion***

Mae'n bwysig bod plant a phobl ifanc yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion Cristnogaeth a phrif grefyddau eraill y byd a gynrychiolir yng Nghymru. Dylent ddatblygu fframwaith cysyniadol sy'n eu helpu i ddeall crefydd yn gyffredinol a'r crefyddau penodol y maent yn eu hastudio. Dylent fod yn gyfarwydd â'r canlynol: prif gredoau crefyddau penodol; ffynonellau awdurdod, yn enwedig ysgrifeniadau cysegredig, straeon, ffigurau hanesyddol allweddol ac arweinwyr crefyddol cyfoes; ffyrdd y mae pobl yn addoli, eu defodau a sut maent yn dathlu eu ffydd; ffyrdd o fyw sy'n deillio o gredoau crefyddol a natur y cymunedau crefyddol lleol ac ehangach. Dylent ddod yn fwyfwy ymwybodol o'r defnydd o symbolaeth fel rhan o grefydd a ffyrdd anllythrennol o fynegi ffydd grefyddol. Dylent nodi pethau sy'n debyg ac yn wahanol i grefyddau gwahanol a gwybod llawer am werthoedd a rennir ac amrywiaeth. Dylent wneud a deall cysylltiadau rhwng crefyddau, dysgeidiaethau ac arferion a deall sut mae'r rhain yn effeithio ar fywyd unigolion, y gymuned leol a chymdeithas ehangach.

***Ymchwil ac ymatebion personol***

Mae'n bwysig bod plant a phobl ifanc yn datblygu'r sgiliau a fydd yn eu galluogi i ymchwilio i grefyddau a phrofiadau dynol ac ymateb i faterion cyfoes sy'n berthnasol i'w bywydau a'r byd heddiw. Dylent ofyn cwestiynau, ymchwilio a gwerthuso ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol yn feirniadol, yn ogystal â datblygu ymatebion gwybodus ac ystyriol. Dylent ystyried ac ymchwilio i ochr ysbrydol bywyd a gydnabyddir gan rai pobl. Dylent allu

ystyried eu credoau, eu gwerthoedd a'u gweithredoedd eu hunain yng ngoleuni eu hastudiaethau, yn ogystal â mynegi a chyfiawnhau eu teimladau a'u safbwyntiau eu hunain. Ar ben hynny, dylent allu ymateb yn feirniadol, ond yn empathetig, i gredoau, gwerthoedd a gweithredoedd eraill. Dylent fynegi eu hymatebion mewn sawl ffordd greadigol, gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau a gweithredoedd cadarnhaol. Dylai disgyblion ddatblygu agweddau diduedd, empathi a pharch, lle y bo'n briodol, wrth ymwneud â safbwyntiau eraill a'u ffyrdd o fyw.

## 3 Gwybodaeth, Sgiliau a Chymwyseddau Craidd ym maes Addysg Grefyddol

Mae'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau ar gyfer Addysg Grefyddol a nodir isod yn adlewyrchu, mewn termau eang, y tri maes sy'n cwmpasu 'Beth sy'n bwysig ym maes Addysg Grefyddol'. Mae'r maes cyntaf a'r ail faes, *Ymwybyddiaeth o brofiadau bywyd a'r cwestiynau sy'n codi* a *Credoau, dysgeidiaethau ac arferion*, yn cynnwys y wybodaeth graidd a'r cymwyseddau cysylltiedig sydd eu hangen ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r trydydd maes, *Ymchwil ac ymatebion personol*, yn cynnwys y sgiliau penodol y bydd pob person ifanc yng Nghymru yn eu datblygu tra'n astudio Addysg Grefyddol ac a fydd yn eu helpu i ddatblygu'r wybodaeth graidd a'r cymwyseddau cysylltiedig yr ystyrir eu bod yn hanfodol ym maes Addysg Grefyddol. Gyda'i gilydd, bydd y meysydd hyn yn helpu plant a phobl ifanc yng Nghymru i gyflawni rhai o nodweddion y Pedwar Diben.

***Ymwybyddiaeth o brofiadau bywyd a'r cwestiynau sy'n codi***

Bydd plant a phobl ifanc yn datblygu gwybodaeth am y canlynol:

- y byd naturiol
- cydberthnasau dynol
- ochr anfaterol/ysbrydol bywyd

a chymhwysedd mewn:

- cyfeirio at eu profiadau eu hunain ac amrywiaeth o ymatebion crefyddol ac anghrefyddol er mwyn gwneud synnwyr o'r byd a chydberthnasau dynol
- gofyn, trafod ac ystyried cwestiynau anodd a sylfaenol
- cydnabod a gwerthfawrogi ochr anfaterol/ysbrydol bywyd

***Credoau, dysgeidiaethau ac arferion***

Bydd plant a phobl ifanc yn datblygu gwybodaeth am y canlynol:

- credoau allweddol
- ffynonellau awdurdod
- ffyrdd y mae pobl yn byw ac yn addoli
- symbolaeth a ffurfiau anllythrennol o fynegi
- pethau tebyg a gwahanol i grefyddau eraill
- effaith crefydd

a chymhwysedd mewn:

- galw i gof, disgrifio ac egluro credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol
- disgrifio ac egluro'r pethau sy'n debyg ac yn wahanol i grefyddau eraill
- dadansoddi a dehongli ystyron gwahanol/symbolaeth
- egluro sut mae crefydd yn effeithio ar fywydau unigolion, cymunedau lleol a chymdeithas ehangach
- gwneud a deall cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac arferion

***Ymchwil ac ymatebion personol***

Bydd plant a phobl ifanc yn datblygu sgiliau:

- ymchwilio
- ystyried tystiolaeth
- gweld perthnasedd a gwerth ffynonellau
- cydnabod, ystyried ac ymchwilio i ochr ysbrydol bywyd
- mynegi a chyfiawnhau eu teimladau a'u safbwyntiau eu hunain
- dangos sut mae'r hyn a ddysgwyd ganddynt wedi effeithio ar eu credoau, eu gwerthoedd a'u gweithredoedd eu hunain
- gwerthfawrogi, gwerthuso ac arfer empathi â safbwyntiau pobl eraill
- mynegi ymatebion mewn sawl ffordd

## 4 Beth sy'n bwysig ym maes Addysg Grefyddol – Datblygiad Ysbrydol

Mae Addysg Grefyddol yn cynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddatblygu'n ysbrydol, sy'n arwain at fwy o hunan-barch, dyheadau ac ymwybyddiaeth feirniadol. Mae'n amhosibl mesur datblygiad ysbrydol yn nhermau dilyniant; fodd bynnag, dylai Addysg Grefyddol dda fod yn llawn cyfleoedd i ddatblygu'n ysbrydol. Mae hyn yn digwydd pan fyddwn yn talu sylw i fanylion y byd o'n cwmpas, gan ddatblygu ymwybyddiaeth ohonom ni ein hunain, pobl eraill, y byd neu'r bydysawd. Gall ysbrydolrwydd ymwneud â chrefydd, ond nid o reidrwydd. Mae'n ymwneud â defnyddio'r galon mewn bywyd bob dydd o fewn y gymuned leol a byd-eang. Mae datblygiad moesol yn cyd-fynd â datblygiad ysbrydol o ganlyniad i fwy o ymwybyddiaeth ohonoch chi eich hun mewn perthynas ag eraill.

Wrth ymwneud â'r tri maes a amlinellir yn 'Beth sy'n bwysig ym maes Addysg Grefyddol', bydd plant a phobl ifanc yn cael y cyfle i ddatblygu'n ysbrydol drwy wneud y canlynol:

- gwneud synnwyr o'u profiad o'r byd naturiol a chydberthnasau dynol;
- cydnabod bod rhai o'r farn bod ochr ysbrydol i fywyd, a bod yn sensitif i'r materion a'r cwestiynau sy'n codi o'r profiadau hyn;
- ystyried a datblygu ymwybyddiaeth o'r cwestiynau anodd a sylfaenol sy'n wynebu pob bod dynol;
- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion eraill a dod yn ymwybodol ohonynt eu hunain, eraill a'r byd;
- ymchwilio i'r ffordd y mae crefydd yn effeithio ar fywydau unigolion, y gymuned leol a chymdeithas ehangach;
- ymateb i faterion cyfoes sy'n berthnasol i'w bywydau a'r byd heddiw;
- ystyried eu credoau, eu gwerthoedd a'u gweithredoedd eu hunain, a mynegi a chyfiawnhau eu teimladau a'u safbwyntiau eu hunain;
- ymateb yn feirniadol, ond yn empathetig, i gredoau, gwerthoedd a gweithredoedd pobl eraill;
- datblygu agweddau diduedd, empathi a pharch lle y bo'n briodol wrth ystyried safbwyntiau eraill a'u ffyrdd o fyw.

Mae disgyblion yn datblygu'n ysbrydol pan gânt y cyfle i wneud y canlynol:

- defnyddio eu calonnau a byw yn llawn;
- datblygu creadigrwydd a defnyddio eu dychymyg;
- gofyn, ystyried a thrafod y cwestiynau sylfaenol mawr;
- stopio, meddwl ac ystyried;

- datblygu dyheadau;
- creu ymdeimlad o berthyn i'r gymuned leol a byd-eang ehangach;
- datblygu hunanymwybyddiaeth ac ymwybyddiaeth o anghenion eraill;
- profi trugaredd a helpu eraill e.e. drwy waith elusennol;
- dangos empathi ac ystyriaeth tuag at eraill;
- datblygu llais a gwrando â pharch ar leisiau eraill;
- siarad amdanyn nhw eu hunain mewn perthynas ag eraill, y byd a/neu Dduw;
- ffurfio cydberthnasau da;
- gofalu am yr amgylchedd a dangos consyrn am y byd o'u cwmpas;
- gwrando ar straeon o'r gorffennol a'r presennol, gan gynnwys straeon am y rhai o'u cwmpas;
- profi rhyfeddod neu gael eu rhyfeddu gan bethau;
- profi'r byd naturiol;
- creu ystyr a phwrpas;
- profi'r hynny sydd y tu hwnt i'r cyffredin a'r materol ac yn y celfyddydau.

## 5 Addysg Grefyddol a'r Pedwar Diben

### *Dysgwyr uchelgeisiol, galluog*

Ym maes Addysg Grefyddol, bydd plant a phobl ifanc yn cael y cyfle i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o Gristnogaeth a phrif grefyddau a chredoau eraill y byd drwy ymholi, archwilio a gwerthuso. Byddant yn cael cyfleoedd sy'n canolbwyntio ar heriau deallusol gwneud ymchwil, gwerthuso tystiolaeth yn feirniadol, meddwl yn feirniadol ac yn sythweledol, cyfiawnhau safbwyntiau a theorïau a datblygu a dehongli esboniadau amgen. Bydd plant a phobl ifanc hefyd yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu yn effeithiol wrth fynegi eu safbwyntiau a'u syniadau eu hunain, ochr yn ochr â'r rhai mewn dosbarthau a lleoliadau gwahanol.

### *Cyfranwyr mentrus, creadigol*

Ym maes Addysg Grefyddol, bydd plant a phobl ifanc yn cael eu hannog i feddwl yn greadigol er mwyn ail-lunio a datrys problemau, yn enwedig mewn perthynas â chwestiynau anodd megis *A yw'n bosibl cael heddwch drwy'r byd?, A yw byth yn iawn i ladd rhywun?,* ac *A all tlodi fyth gael ei ddileu?* Cânt eu hannog i fynegi eu syniadau a'u hemosiynau mewn sawl ffordd a thrwy ddefnyddio gwahanol dechnolegau, a bydd disgwyl iddynt roi o'u hegni a defnyddio eu sgiliau yn y dosbarth a'r tu allan iddo er mwyn i bobl eraill elwa. Bydd plant a phobl ifanc yn cael eu hysgogi i fanteisio ar gyfleoedd i ddysgu am ddiwylliannau a chrefyddau amrywiol y rhai o'u cwmpas, yn ogystal â phwysigrwydd hyn i ffurfio cydberthnasau cynhyrchiol a pharatoi ar gyfer bywyd y tu allan i'r ysgol a thu hwnt.

### *Dinasyddion moesegol, gwybodus*

Ym maes Addysg Grefyddol, bydd plant a phobl ifanc yn cael y cyfle i ddatblygu'r gallu i weld, i herio rhagfarn ac i ffurfio barn werthfawr yn wyneb gwybodaeth gymhleth ac anghyson. Byddant yn ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion cyfoes megis cyfoeth, cydraddoldeb, urddas dynol, heddwch a gwrthdaro. Drwy astudio agweddau crefyddol ac anghrefyddol at y rhain, byddant yn gallu ffurfio eu safbwyntiau eu hunain a deall safbwyntiau eraill. Byddant hefyd, drwy astudio prif grefyddau a byd-olygon y byd, yn dod yn wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol. Bydd ymchwilio i werthoedd ac agweddau a rennir yn annog plant a phobl ifanc i barchu anghenion a hawliau eraill, fel aelodau o gymdeithas amrywiol.

### *Unigolion iach, hyderus*

Ym maes Addysg Grefyddol, bydd plant a phobl ifanc yn cael y cyfle i ystyried ochr ysbrydol posibl i fywyd ac ymateb i faterion moesol. Bydd hyn yn eu helpu i ddatblygu gonestrwydd, cydwybod a chyfrifoldeb personol, a chyfrannu atynt, gan sefydlu credoau ysbrydol a moesegol posibl. Drwy astudio credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol, byddant yn gallu datblygu gwydnwch ac empathi mewn perthynas â safbwyntiau crefyddol, y gellir eu cymhwyso at gyd-destunau gwahanol. Bydd plant a phobl ifanc yn cael eu herio ym maes Addysg Grefyddol pan gânt eu cyflwyno i gredoau, dysgeidiaethau ac arferion pobl

eraill, ac yn dysgu sut i ddatblygu ymatebion rhesymegol ac ystyriol, sy'n briodol mewn cyd-destunau yn yr ysgol a chyd-destunau cymdeithasol ehangach.

## 6 Amlinelliad enghreifftiol o ddilyniant ym maes Addysg Grefyddol

| Camau dilyniant | |
|---|---|
| **5 oed** | *Ymwybyddiaeth o brofiadau bywyd a'r cwestiynau sy'n codi*<br>Mae disgyblion yn siarad am agweddau ar eu bywydau eu hunain a bywydau eraill bob dydd e.e. teulu, cartrefi, rheolau, yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir, adegau hapus a thrist, dathliadau, cymunedau a grwpiau y maent yn perthyn iddynt. Mae disgyblion yn archwilio ac yn cael profiad o'r byd naturiol, yn dangos chwilfrydedd ac yn gofalu ac yn pryderu am bethau byw a'r amgylchedd.<br><br>*Credoau, dysgeidiaethau ac arferion*<br>Mae disgyblion yn cael profiad ymarferol o agweddau ar grefydd a chred drwy ymwneud â straeon, arteffactau, pobl a lleoedd. Maent yn mwynhau profiadau newydd, iaith a geirfa. Maent yn cydnabod bod rhai pethau yn arbennig iddyn nhw eu hunain ac eraill, ac y gall y rhain fod yr un peth neu'n wahanol e.e. adegau, pobl, lleoedd.<br><br>*Ymchwil ac ymatebion personol*<br>Mae disgyblion yn cyfleu ac yn siarad am eu meddyliau a'u teimladau ynghylch eu profiadau eu hunain a phrofiadau eraill. |
| **8 oed** | *Ymwybyddiaeth o brofiadau bywyd a'r cwestiynau sy'n codi*<br>Mae disgyblion yn gofyn cwestiynau ac yn gwrando ar safbwyntiau eraill er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o'u profiadau bywyd eu hunain ac eraill e.e. Pam mae'n rhaid i ni wneud hyn? Sut y dylem drin pobl eraill? Mae disgyblion yn gofyn cwestiynau am y bydysawd a harddwch a chreulondeb natur e.e. Sut a pham y daeth y byd i fodoli? Pam mae pethau drwg yn digwydd? A ddylem ofalu am bethau byw a'r byd naturiol?<br><br>*Credoau, dysgeidiaethau ac arferion*<br>Bydd disgyblion yn ystyried agweddau ar grefydd a chred, yr hyn y maent wedi'i ddysgu a sut y gallai hyn fod yn berthnasol i'w bywydau a'u profiadau eu hunain. Byddant yn deall pwysigrwydd rhai straeon, adegau, pobl a lleoedd o fewn crefyddau gwahanol a sut mae'r rhain yn dylanwadu ar fywydau rhai pobl. Maent yn cydnabod y pethau tebyg a gwahanol rhwng agweddau ar wahanol grefyddau, ac yn ymwybodol hefyd o amrywiaeth o fewn crefyddau. Gallant adnabod rhai symbolau crefyddol a chynnig esboniadau syml o'u hystyr.<br><br>*Ymchwil ac ymatebion personol*<br>Mae disgyblion yn disgrifio eu meddyliau a'u teimladau am eu profiadau eu hunain ac eraill. Maent yn cynnal ymchwiliadau syml ac yn defnyddio tystiolaeth o ffynonellau gwahanol er mwyn ystyried y cwestiynau sy'n codi. |
| **11 oed** | *Ymwybyddiaeth o brofiadau bywyd a'r cwestiynau sy'n codi*<br>Mae disgyblion yn gofyn ac yn ystyried cwestiynau moesol sy'n ymwneud â chydberthnasau dynol (e.e. sy'n ymwneud â'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir, tegwch, maddeuant), ac yn gwybod am godau ymddygiad crefyddol ac anghrefyddol moesol. Mae disgyblion yn gofyn ac yn ystyried cwestiynau anodd lle nad oes atebion y cytunwyd arnynt e.e. cwestiynau ynghylch Duw/y Realiti Eithaf, y bydysawd, y byd naturiol, ystyr a diben bywyd. Mae ganddynt wybodaeth am wahanol ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i'r cwestiynau hyn, ac maent yn |

| | |
|---|---|
| | ymwybodol o wahanol ddehongliadau o fewn crefyddau, e.e. mae disgyblion yn gyfarwydd â rhai naratifau crefyddol ac anghrefyddol ynghylch tarddiad y bydysawd ac yn cydnabod bod yma ddehongliadau gwahanol o'r straeon hyn.<br>*Credoau, dysgeidiaethau ac arferion*<br>Mae disgyblion yn disgrifio ac yn egluro agweddau ar grefydd a chred. Maent yn gallu creu cysylltiadau rhwng credoau ac arferion ac yn deall effaith crefydd ar fywydau pobl. Gall disgyblion wneud cysylltiadau â'u profiadau bywyd eu hunain a rhai pobl eraill. Maent yn adnabod ac yn disgrifio'r pethau sy'n debyg ac yn wahanol i grefyddau eraill. Maent hefyd yn gwybod, o fewn crefydd, fod llawer o amrywiaeth a all fod yn amlwg drwy wahanol ddehongliadau o ddysgeidiaethau, arferion a lefelau gwahanol o ymrwymiad.<br>Mae disgyblion yn deall ac yn egluro ystyr ac arwyddocâd amrywiaeth o symbolaeth grefyddol e.e. arteffactau, gweithredoedd, straeon ac iaith.<br><br>*Ymchwil ac ymatebion personol*<br>Mae disgyblion yn gwneud gwaith ymchwil â meddwl agored. Maent yn defnyddio tystiolaeth yn feirniadol ac yn gweld perthnasedd ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol. Maent yn mynegi ac yn dechrau cyfiawnhau eu teimladau a'u safbwyntiau, ac yn egluro mewn geiriau syml sut maent yn wahanol i rai pobl eraill. Mae disgyblion yn dechrau gwerthfawrogi ac yn arfer empathi â safbwyntiau pobl eraill. |
| **14 oed** | *Ymwybyddiaeth o brofiadau bywyd a'r cwestiynau sy'n codi*<br>Mae disgyblion yn gofyn ac yn trafod cwestiynau moesol a moesegol sy'n ymwneud â chydberthnasau a phrofiadau dynol e.e. cwestiynau sy'n ymwneud â rhagfarn a gwahaniaethu, cyfiawnder a chydraddoldeb, rhyddid, hawliau a chyfrifoldebau. Maent yn deall sut y gall dehongliadau gwahanol o ddysgeidiaethau/canllawiau crefyddol ac anghrefyddol ddylanwadu ar benderfyniadau pobl ynghylch materion moesegol o fewn cymdeithas gyfoes. Mae disgyblion yn gofyn ac yn trafod y cwestiynau eithaf e.e. cwestiynau ynghylch dioddefaint, bywyd ar ôl marwolaeth, bodolaeth Duw, bodolaeth enaid, yr hyn sy'n ein gwneud yn fodau dynol. Maent yn gwybod ac yn deall ystod o atebion crefyddol ac anghrefyddol gwahanol i'r cwestiynau hyn.<br><br>*Credoau, dysgeidiaethau ac arferion*<br>Mae disgyblion yn disgrifio ac yn egluro eu gwybodaeth am amrywiaeth o grefyddau a chredoau yn fanwl. Maent yn deall effaith crefydd a chred pobl, yn awr ac yn y gorffennol, arnyn nhw eu hunain, ar unigolion eraill ac ar gymdeithas leol a byd-eang. Mae gan ddisgyblion wybodaeth a dealltwriaeth o'r amrywiaeth o fewn crefyddau ac maent yn gwerthfawrogi heriau ymrwymo i ffydd a'i mynegi mewn cymdeithas gyfoes. Mae disgyblion yn dadansoddi ac yn dehongli ystyron gwahanol wrth fynegi crefydd e.e. llenyddiaeth, celf, dawns, defodau.<br><br>*Ymchwil ac ymatebion personol*<br>Mae disgyblion yn ymchwilio i dystiolaeth er mwyn ffurfio eu safbwyntiau rhesymegol eu hunain. Mae disgyblion yn gweld perthnasedd a rhagfarn o fewn ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol. Maent yn mynegi ac yn cyfiawnhau eu teimladau a'u safbwyntiau ac yn ystyried sut mae'r hyn a ddysgwyd ganddynt wedi effeithio ar eu credoau, eu gwerthoedd a'u gweithredoedd eu hunain. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi, yn gwerthuso ac yn arfer empathi â safbwyntiau |

| | |
|---|---|
| | eraill, ac yn mynegi eu hymatebion ystyriol eu hunain mewn ffyrdd gwahanol. |
| **16 oed** | *Ymwybyddiaeth o brofiadau bywyd a'r cwestiynau sy'n codi*<br>Mae disgyblion yn ymchwilio i'r cwestiynau athronyddol a moesegol eithaf o sawl safbwynt crefyddol ac anghrefyddol, gan gynnwys rhai carfannau o feddylwyr athronyddol.  Maent yn deall bod y fath gwestiynau yn gymhleth ac nad yw'r atebion yn aml yn gyflawn nac yn bendant. Er enghraifft, a yw rheolau moesegol yn ddiamodol am byth, neu a ddylent ddibynnu ar yr amgylchiadau, y cyd-destun a'r datblygiadau mewn cymdeithas dros amser?<br><br>*Credoau, dysgeidiaethau ac arferion*<br>Mae disgyblion yn disgrifio ac yn egluro eu gwybodaeth fanwl a'u dealltwriaeth glir o grefyddau a chredoau.  Mae disgyblion yn gwerthuso agweddau penodol ar grefyddau a chredoau yn feirniadol, ac yn ystyried gwahanol ddehongliadau o ddysgeidiaethau crefyddol ac effaith y rhain arnyn nhw eu hunain, ar unigolion eraill ac ar gymdeithas leol a byd-eang. Mae ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth glir o'r ffyrdd eang o fynegi safbwyntiau amrywiol o fewn crefyddau. Mae disgyblion yn rhoi enghreifftiau o hyn mewn sawl cyd-destun. Mae disgyblion yn dadansoddi, yn dehongli ac yn gwerthuso ystyron gwahanol wrth fynegi crefydd e.e. llenyddiaeth, celf, defodau, dawns a cherddoriaeth.<br><br>*Ymchwil ac ymatebion personol*<br>Mae disgyblion yn gwneud gwaith ymchwil manwl, yn ystyried amrywiaeth eang o dystiolaeth, a byddant yn gweld rhagfarn yn gywir, gan gynnwys yn y cyfryngau cymdeithasol. Byddant yn dewis tystiolaeth ddibynadwy a gwerthfawr er mwyn ffurfio eu safbwyntiau rhesymegol eu hunain. Maent yn mynegi ac yn cyfiawnhau eu teimladau ag aeddfedrwydd, gan ddangos yn glir sut mae'r hyn a ddysgwyd ganddynt wedi effeithio ar eu credoau, eu gwerthoedd a'u gweithredoedd eu hunain. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi, yn gwerthuso ac yn arfer empathi â safbwyntiau eraill er mwyn ffurfio'u casgliadau rhesymegol eu hunain a datblygu agweddau cadarnhaol. Maent yn mynegi'r ymatebion hyn mewn sawl ffordd. |

**DS.** Pryderon

Er bod y papur hwn yn dilyn y fformat a fynnir gan Lywodraeth Cymru, ac felly'n cyfeirio at oedrannau penodol mewn perthynas â dilyniant, barn yr awduron yw y dylai dilyniant fod yn seiliedig ar gamau datblygiadol yn hytrach nag oedran.

## 7 Syniad o'r hyn y bydd disgyblion yn ei ddysgu/yn cael profiad ohono ym maes Addysg Grefyddol

Beth dylai disgyblion gael profiad ohono yn 5, 8, 11, 14 ac 16 oed?

*Cyfoethogi a Phrofiadau – Diffiniad*

*Dull addysgu a dysgu sy'n ymgysylltu'n weithredol â phlant a phobl ifanc, ac yn eu hannog i feddwl ac ymateb mewn ffordd annibynnol ac unigryw. Adnoddau dysgu hwyliog, perthnasol, sy'n perthyn i'r byd go iawn ac sy'n rhoi llais i'r disgybl sydd wrth wraidd y broses o greu amgylchedd lle daw'r dyhead i ddysgu oddi wrth yr unigolion eu hunain. Yr egwyddor sylfaenol yw bod yr hyn a ddysgir yn cael ei werthfawrogi a'i fwynhau yn fwy pan gaiff y cynnwys a'r prosesau eu dysgu yng nghyd-destun problemau presennol go iawn i'w datrys a chwestiynau i'w hateb. Caiff addysg wedi'i chyfoethogi ei chreu yn sgil unrhyw weithgaredd sy'n golygu bod yr hyn a ddysgir yn fwy ystyrlon, sylweddol, neu wobrwyol ac felly yn gwella profiad addysgol yr unigolyn.*

Gweithgor Cyfoethogi a Phrofiadau

Llinyn 1, Adroddiad Interim, Ionawr 2017

Dylai Addysg Grefyddol fod yn brofiad amlsynhwyrol. Dylai plant a phobl ifanc brofi rhyfeddod y byd naturiol. Wrth iddynt ymchwilio i'r ffyrdd y mae pobl yn dewis mynegi eu crefydd a'u cred, byddant yn dod wyneb yn wyneb â golwg, arogl, sain, blas ac ansawdd dulliau o addoli, gwyliau a dathliadau. Gall ymwneud yn ystyrlon â chymunedau crefyddol fod yn rhywbeth pleserus a chofiadwy.

Mae Addysg Grefyddol dda yn defnyddio lleoedd addoli o fewn y gymuned leol a/neu ymhellach fel man dechrau i addysgu cysyniadau megis addoli, ymrwymo, defod newid byd a dathlu. Mae siarad â chynrychiolwyr ffydd, arsylwi gweithredoedd addoli, gwyliau crefyddol a dathliadau, a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn helpu pob plentyn a pherson ifanc i ddysgu am effaith crefydd a chred ar unigolion a'r gymdeithas. Gall gweithio mewn partneriaeth â chymunedau ffydd lleol gyfrannu at ddealltwriaeth a chydlyniant cymunedol.

Mae dysgu drwy brofiad yn rhoi cyfle i blant ifanc ymwneud â gweithgareddau chwarae rôl neu gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â dathliadau ac addoli. Mae dysgu yn seiliedig ar efelychu yn rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc ystyried sut mae crefydd a chred yn dylanwadu ar bobl wrth iddynt ymateb i ddilemâu moesegol, datrys gwir broblemau a phroblemau presennol neu ymgymryd â thasgau ystyrlon. Gall defnyddio ymarferion tawelu a rhoi cyfleoedd i blant o bob oedran gael profiad o dechnegau myfyrio sy'n berthnasol i ddysgu ym maes Addysg Grefyddol gyfrannu at ddatblygu unigolion iach, hyderus a chefnogi llesiant meddyliol ac emosiynol cadarnhaol.

Mae dysgu creadigol yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc ystyried sut mae cerddorion, ysgrifenwyr, artistiaid a dawnswyr yn mynegi eu crefydd a'u cred drwy'r celfyddydau. Drwy weithio gydag artistiaid preswyl neu gymryd rhan mewn prosiectau creadigol, byddant yn

dysgu sut i fynegi eu hymatebion personol i grefydd a chred ac ysbrydolrwydd drwy'r celfyddydau.

Mae Addysg Grefyddol dda yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn teimlo'n rhan o'r broses ddysgu a'u bod yn berchen arni. Drwy ymateb i grefydd yn y newyddion a'r cyfryngau, bydd eu Haddysg Grefyddol yn berthnasol i'w bywydau. Byddant yn dysgu sut i wneud dewisiadau wrth iddynt ddatblygu llinellau ymholi, dewis adnoddau ac ymchwilio i ffyrdd o rannu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o effaith crefyddau a chredoau ar gynulleidfaoedd eraill. Bydd eu Haddysg Grefyddol yn eu helpu i ymwneud â materion cyfoes a gall/dylai eu hysbrydoli i fod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd.

Mae awgrymiadau ar gyfer profiadau dysgu ym maes Addysg Grefyddol yn 5, 8, 11, 14 ac 16 oed i'w gweld yn Atodiad 1.

## 8 Ystyried cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, sgiliau ehangach, y dimensiwn Cymreig a safbwyntiau rhyngwladol ym maes Addysg Grefyddol

Ym maes Addysg Grefyddol, ceir nifer dda o gyfleoedd i ymgorffori cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, sgiliau ehangach, y dimensiwn Cymreig a safbwyntiau rhyngwladol.

***Cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd***

Llythrennedd

Ym maes Addysg Grefyddol, bydd plant a phobl ifanc yn datblygu eu sgiliau siarad a gwrando wrth iddynt ymchwilio i'r cwestiynau eithaf, meddwl am faterion moesegol a moesol ac egluro eu syniadau eu hunain. Byddant yn dysgu sut i holi amrywiaeth o gwestiynau wrth iddynt siarad ag aelodau o gymunedau ffydd a gweithio gydag eraill i ddilyn llinellau ymholi. Byddant yn dysgu sut i esbonio eu casgliadau, eu safbwyntiau a'u credoau eu hunain drwy ddilyn cyfeiriad dadl resymegol, cyfeirio at dystiolaeth a chyflwyno rhesymau cadarn. Byddant yn dangos eu bod yn gallu gwrando ar eraill ac ystyried eu safbwyntiau, eu diwylliant a'u ffydd.

Ym maes Addysg Grefyddol, bydd plant a phobl ifanc yn dysgu sut i ddarllen yn gywir wrth iddynt adalw a dehongli gwybodaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau er mwyn dysgu am grefydd ac effaith credoau, dysgeidiaethau ac arferion ar fywydau pobl. Byddant yn datblygu'r gallu i ddatgodio a dehongli iaith symbolaidd a throsiadol testunau crefyddol a chelf weledol. O ganlyniad, byddant yn dysgu sut y caiff iaith ei defnyddio mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac at amrywiaeth o ddibenion.

Ym maes Addysg Grefyddol, bydd plant a phobl ifanc yn dysgu sut i ddefnyddio ystod o ffurfiau ysgrifennu ffeithiol at amrywiaeth o ddibenion. Byddant yn dysgu geirfa o dermau crefyddol ac yn cyfleu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gredoau crefyddol ac anghrefyddol mewn modd cymwys a mwyfwy cymhleth a chywir. Byddant yn dysgu sut i fynegi eu hymdeimlad ysbrydol a phersonol posibl o ystyr mewn amrywiaeth o ffurfiau ysgrifennu creadigol.

Rhifedd

Ym maes Addysg Grefyddol, bydd plant a phobl ifanc yn datblygu dealltwriaeth o siâp, patrwm, pellter, amser ac arian wrth iddynt ddysgu sut mae credoau, dysgeidiaethau ac arferion yn effeithio ar fywydau pobl. Byddant yn dysgu sut i ddehongli a gwerthuso data mewn testunau, diagramau a graffiau yn feirniadol, ac yn datblygu eu sgiliau trin data eu hunain wrth iddynt ymchwilio i agweddau pobl a'u safbwyntiau am faterion moesegol a moesol.

Cymhwysedd digidol

Ym maes Addysg Grefyddol, bydd plant a phobl ifanc yn dysgu sut i fod yn gyfrifol ac yn ddiogel wrth chwilio am wybodaeth ar-lein ac yn gallu gwerthuso dilysrwydd a dibynadwyedd canfyddiadau'r chwiliad. Byddant yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau ar-

lein ac yn dysgu sut i adnabod iaith y gellir ystyried ei bod yn sarhaus.  Byddant yn graff ac yn sensitif wrth ddefnyddio'r e-bost, y cyfryngau cymdeithasol a dolenni fideo yn gydweithredol i ddysgu am gredoau ac arferion crefyddol pobl.  Byddant yn dysgu sut i gasglu a dehongli data er mwyn nodi patrymau a thueddiadau sy'n ymwneud ag arferion crefyddol neu safbwyntiau pobl am faterion moesegol a moesol.  Byddant yn dangos dealltwriaeth o bwrpas a chynulleidfa wrth iddynt ddefnyddio amrywiaeth o feddalwedd a chyfryngau i gyfleu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u hymatebion personol.

***Sgiliau ehangach***

Ym maes Addysg Grefyddol, bydd plant a phobl ifanc yn **gweithio gydag eraill** wrth iddynt drefnu ymchwiliadau sy'n gofyn iddynt gasglu a defnyddio amrywiaeth o ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol er mwyn archwilio ymatebion gwahanol i'r cwestiynau eithaf ac agweddau ar grefydd a chred. Byddant yn datblygu eu **heffeithiolrwydd personol** eu hunain fel aelodau pwysig o dîm y gellir dibynnu arnynt i gyfrannu drwy drefnu a chynnal ymchwiliadau. Byddant hefyd yn datblygu'r sgil hwn fel dysgwyr unigol y mae gofyn iddynt werthuso, cyfiawnhau a mynegi eu hymatebion ystyriol eu hunain mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan ddatblygu agweddau cadarnhaol a defnyddio camau gweithredu cadarnhaol.

Ym maes Addysg Grefyddol, bydd plant a phobl ifanc yn mireinio eu sgiliau **datrys problemau** wrth ymateb i faterion cyfoes. Byddant yn dysgu sut i weld perthnasedd a gwerth ffynonellau wrth ymchwilio i'r materion hyn a'r cwestiynau eithaf. Byddant yn gwerthuso ffynonellau a safbwyntiau eraill yn feirniadol er mwyn ffurfio'u casgliadau rhesymegol eu hunain.

***Y dimensiwn Cymreig a safbwyntiau rhyngwladol***

Mae Addysg Grefyddol yn bwnc sydd wedi ymgorffori ac ymateb i faterion a safbwyntiau lleol a chenedlaethol bob tro. Mae CYSAGau (Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol) ym mhob awdurdod lleol yn benderfynol yn lleol ac yn gallu cefnogi agweddau pwysig ar y dimensiwn Cymreig mewn perthynas ag Addysg Grefyddol.

Mae Addysg Grefyddol yn rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc werthfawrogi siâp ac arwyddocâd etifeddiaeth Cristnogaeth a'r amrywiaeth eang o grefyddau a chredoau sy'n amlwg yng Nghymru, yn y gorffennol a'r presennol, a'r ffordd y mae'r rhain yn effeithio ar fywyd yng Nghymru heddiw. Gall hyn gyfrannu at gydlyniant cymunedol, ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chrefyddol, cydweithredu a dealltwriaeth mewn cymunedau cymdeithasol ac unigol.

Mae Addysg Grefyddol yn ymwneud ag ymchwilio i gwestiynau a materion heriol sydd o bwys yn fyd-eang ac sy'n cael eu harchwilio o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol. Er enghraifft, mae meysydd naturiol sy'n berthnasol i Addysg Grefyddol yn cynnwys: penderfyniadau gwleidyddol, ecsbloetiaeth a chyfiawnder, rhyddid a chyfrifoldeb cymdeithasol, hawliau dynol, moeseg economaidd, a chyfrifoldebau perthynas a dynameg rhwng Cymru a rhannau eraill o'r byd.

**Cyfeiriadau**

ACCAC (2008) *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Donaldson, Yr Athro G (2015) *Dyfodol Llwyddiannus; Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru* Llywodraeth Cynulliad Cymru

Gweithgor Cyfoethogi a Phrofiadau (2017) *Llinyn 1, adroddiad interim*

Atodiad 1 Awgrymiadau ar gyfer profiadau dysgu ym maes Addysg Grefyddol yn 5, 8, 11, 14 ac 16 oed

| Yn 5 mlwydd oed | Yn 8 mlwydd oed | Yn 11 mlwydd oed | Yn 14 mlwydd oed | Yn 16 mlwydd oed |
|---|---|---|---|---|
| • Chwarae rôl<br>• Doliau persona<br>• Byd naturiol<br>• Storïwr<br>• Ymweld â lleoedd arbennig o fewn yr ysgol neu yn y gymuned leol | • Chwarae rôl<br>• Doliau persona<br>• Byd naturiol<br>• Storïwr<br>• Theatr mewn Addysg, *e.e."Mewn Cymeriad"*<br>• Artistiaid Preswyl<br>• Siarad â chynrychiolwyr ffyrdd a gweithio gyda nhw<br>• Ymweld â man addoli<br>• Ail-greu* neu sylwi ar ddathliad neu ŵyl<br>• Arteffactau crefyddol<br>• Amser cylch | • Chwarae rôl<br>• Byd naturiol<br>• Storïwr<br>• Theatr mewn Addysg, e.e. *"Mewn Cymeriad"*<br>• Artistiaid Preswyl, *e.e.Spirited Arts, Into Film*<br>• Siarad â chynrychiolwyr ffyrdd a gweithio gyda nhw<br>• Defnyddio llwyfan digidol/rhith-ddysgu, *e.e. rhith-daith o gwmpas man addoli*<br>• Ymweld â man addoli<br>• Ymweld ag oriel, llyfrgell neu amgueddfa, *e.e. celf ac arteffactau crefyddol, llyfrau cysegredig*<br>• Ail-greu* neu sylwi ar ddathliad, gŵyl neu bererindod<br>• Arteffactau crefyddol<br>• Datrys dirgelwch<br>• Athroniaeth i Blant | • Byd naturiol<br>• Storïwr<br>• Theatr mewn Addysg<br>• Artistiaid Preswyl, *e.e.Spirited Arts, Into Film*<br>• Siarad â chynrychiolydd ffyrdd a gweithio gydag ef/hi<br>• Trafod materion moesegol a moesol â phanel o ymwelwyr<br>• Defnyddio llwyfan digidol/rhith-ddysgu, *e.e. Face to Faith, True Tube*<br>• Ymweld â man addoli<br>• Ymweld ag oriel, llyfrgell neu amgueddfa, *e.e. celf ac arteffactau crefyddol, llyfrau cysegredig,*<br>• Sylwi ar addoli, dathliad crefyddol, gŵyl neu bererindod, *e.e.Labyrinth Adventure*<br>• Arteffactau crefyddol<br>• Datrys dirgelwch<br>• Gweithgareddau neu efelychiadau datrys problemau sy'n seiliedig ar ddilema, e.e. *Treialau ffug, cynadleddau, seneddau, comisiynau gwir a chysoni*<br>• Athroniaeth i Blant | • Byd naturiol<br>• Storïwr<br>• Theatr mewn Addysg<br>• Artistiaid Preswyl, e.e. *Spirited Arts, Into Film*<br>• Siarad â chynrychiolwyr ffyrdd a gweithio gyda nhw<br>• Trafod materion moesegol a moesol â phanel o ymwelwyr<br>• Defnyddio llwyfan digidol/rhith-ddysgu, *e.e. Face to Faith, True Tube*<br>• Ymweld â man addoli<br>• Ymweld ag oriel, llyfrgell neu amgueddfa, *e.e. celf ac arteffactau crefyddol, llyfrau cysegredig*<br>• Sylwi ar addoli, dathliad crefyddol neu ŵyl<br>• Arteffactau crefyddol<br>• Datrys dirgelwch<br>• Gweithgareddau neu efelychiadau datrys problemau sy'n seiliedig ar ddilema, e.e. *Treialau ffug, seneddau, cynadleddau, comisiynau gwir a chysoni*<br>• Athroniaeth i Blant |